OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 717

# Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007

## RHAN 2

Llygryddion Grŵp A a Grŵp B ac osôn

PENNOD 1

Safonau ansawdd aer

**Rhagarweiniad a chymhwysiad**

**4.**—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â'r llygryddion canlynol—

(a) Llygryddion Grŵp A;

(b) Llygryddion Grŵp B; ac

(c) osôn.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr holl fesurau a gymerir o dan Pennod 2 neu 3 o'r Rhan hon—

(a) yn rhoi ystyriaeth i ddull integredig o weithredu mewn perthynas â diogelu aer, dŵr a phridd; a

(b) ddim yn cael unrhyw effaith negyddol ar—

(i) unrhyw Aelod-wladwriaeth arall, neu

(ii) unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

**Parthau a chrynoadau**

**5.**—(1) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion y Rhan hon, rannu tiriogaeth Cymru yn barthau.

(2) Bydd parth yn cael ei ddosbarthu fel crynhoad at ddibenion y Rhan hon lle—

(a) mae'n cynnwys poblogaeth o dros 250,000 o breswylwyr; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, mae ganddo ddwysedd poblogaeth y $km^2$ y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y gellir cyfiawnhau dosbarthiad o'r fath.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol sefydlu gwahanol barthau ar gyfer gwahanol lygryddion lle y mae'n barnu bod hynny'n briodol.

**Safonau ansawdd aer**

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), mae'n ofynnol i'r safonau ansawdd aer canlynol a nodwyd yn Atodlen 1 gael eu cyrraedd ym mhob parth—

(a) ar gyfer llygryddion Grŵp A, y gwerthoedd terfyn sydd wedi eu nodi yn Rhan 1 o'r Atodlen honno;

(b) ar gyfer llygryddion Grŵp B, y gwerthoedd targed sydd wedi eu nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) ar gyfer osôn, y gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor sydd wedi eu nodi yn Rhan 4 o'r Atodlen honno.

(2) Y dyddiad cyrhaeddiad ar gyfer gwerth terfyn neu darged yw—

(a) dyddiad cyrhaeddiad a nodwyd ar gyfer y llygrydd perthnasol yn Atodlen 1; neu

(b) lle nad oes dyddiad cyrhaeddiad wedi ei nodi, y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Mae'r amcanion hirdymor i'w cyflawni yn yr hirdymor, i'r graddau y gellir cyflawni'r amcanion hyn trwy'r mesurau sy'n ofynnol gan reoliad 7(3)(b).

(4) Yn achos bensen a nitrogen deuocsid, mae'r ffiniau goddefaint a nodwyd yn Rhan 2 o Atodlen 1 yn gymwys yn y cyfnodau a bennir.

PENNOD 2

Cyrraedd safonau ansawdd aer

**Mesurau cyrraedd cyffredinol**

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y mesurau angenrheidiol i sicrhau bod crynoadau pob llygrydd, ym mhob parth, yn cyrraedd y safonau ansawdd aer sy'n ofynnol gan reoliad 6.

(2) Y mesurau angenrheidiol mewn perthynas â llygryddion Grŵp B yw—

(a) Mesurau nad ydynt yn golygu costau anghyfartal; a

(b) i'r graddau bod crynoadau o'r llygryddion perthnasol yn codi o ganlyniad i ollyngiadau o weithfeydd y mae Cyfarwyddeb y Cyngor 96/61/EC ynglyn ag atal a rheoli llygredd integredig(**1**) yn gymwys, defnyddio'r dulliau gorau sydd ar gael i atal llygredd o'r gweithfeydd hynny yn unol ag erthygl 3(a) o'r Gyfarwyddeb honno(**2**).

(3) Y mesurau angenrheidiol mewn perthynas ag osôn yw'r mesurau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu eu bod —

(a) yn gymesur, yn achos y gwerthoedd targed yn ogystal â'r amcanion hirdymor; a

(b) yn gost effeithiol, yn achos amcanion hirdymor.

**Cynlluniau gwella**

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phob parth lle—

(a) cyn y dyddiad cyrhaeddiad, mae crynoadau o bensen neu nitrogen deuocsid yn uwch na'r gwerth terfyn a'r ffin goddefaint sy'n gymwys; neu

(b) mae crynoadau osôn yn uwch na'r gwerth targed.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella mewn perthynas â'r llygrydd dan sylw neu, os cyflawnir yr amod a bennir o ran y ddau llygrydd, mewn perthynas â'r ddau lygrydd hynny.

(3) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella mewn perthynas ag osôn oni bai ei fod yn barnu na ellid cyrraedd y gwerth targed trwy fesurau cymesur.

(4) Rhaid i gynllun gwella gynnwys yr wybodaeth a nodwyd yn Atodlen 2.

(**1**) OJ Rhif L 257, 10.10.96, t.26.

(**2**) Gweithredir y Gyfarwyddeb gan Reoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000 (O.S. 2000/1973 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/503, 2002/275, 2002/1702, 2003/1699, 2003/3296, 2004/3276, 2005/1448 a 2006/2802 (Cy.241)).

(5) Pan y bo'n ofynnol paratoi a gweithredu cynllun gwella o dan baragraffau (2) a (3), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, lle y mae'n barnu bod hynny'n briodol, baratoi a gweithredu cynllun gwella integredig sy'n cwmpasu pob un o'r llygryddion perthnasol.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, caiff cynllun gwella gynnwys naill ai cynllun neu raglen y mae'n rhaid iddynt, ym mhob achos, anelu at gyrraedd y gwerth terfyn neu darged yn y parth perthnasol erbyn y dyddiad cyrhaeddiad ar gyfer y llygrydd dan sylw.

**Mesurau gwella eraill**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob parth lle y mae crynodiadau o—

(a) un neu fwy o lygryddion Grŵp B yn uwch na'r gwerth targed perthnasol; neu

(b) osôn yn gyfartal neu'n is na'r gwerthoedd targed, ond yn uwch na'r amcan hirdymor.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) adnabod achos y llygredd a phrif ffynonellau yr allyriannau; ac

(b) mewn perthynas â'r llygryddion dan sylw, sicrhau bod y mesurau sy'n ofynnol gan reoliad 7(2) yn cael eu cyfeirio yn benodol at ffynonellau'r allyriannau a ddynodwyd.

(3) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu mesurau y mae'n ystyried eu bod yn rhai cost effeithiol gyda'r bwriad o gyrraedd yr amcan hirdymor.

(4) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y mesurau sy'n ofynnol ym mharagraff (3) yn gyson ag unrhyw gynllun gwella a baratowyd ar gyfer osôn o dan reoliad 8(3).

PENNOD 3

Cynnal safonau ansawdd aer a chynlluniau gweithredu

**Cynnal safonau ansawdd aer**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob parth lle y mae crynodiadau o—

(a) un neu fwy o lygryddion Grŵp A yn is na'r gwerthoedd terfyn perthnasol;

(b) un neu fwy o lygryddion Grŵp B yn is na'r gwerthoedd targed perthnasol; neu

(c) osôn yn cyrraedd yr amcanion hirdymor.

(2) Pan fo is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, mewn perthynas â phob llygrydd sy'n bodloni'r amodau a nodwyd yn yr is-baragraffau hynny, sicrhau cydymffurfedd â'r gwerthoedd terfyn neu darged perthnasol ac ymdrechu i gadw'r crynodiad isaf y mae'n barnu sy'n gydnaws â datblygu cynaliadwy.

(3) Pan fo paragraff (1)(c) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) sicrhau, i'r graddau y mae ffactorau sy'n cynnwys natur drawsffiniol llygredd osôn ac amodau meteorolegol yn caniatáu hynny, bod crynodiadau yn cael eu cadw yn is na'r amcanion hirdymor; a

(b) cadw, drwy fesurau cymesur, y crynodiadau isaf o osôn y mae'n barnu eu bod yn gydnaws â datblygu cynaliadwy a lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd pobl.

**Cynlluniau gweithredu**

**11.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â,—

(a) paragraffau (2) i (4), baratoi cynlluniau gweithredu; a

(b) paragraff (5), rhoi cynlluniau gweithredu ar waith.

(2) Rhaid i'r cynlluniau gweithredu ddangos y mesurau sydd i'w cymryd mewn unrhyw barth yn y tymor byr i gyflawni'r amcanion a nodwyd ym mharagraff (3) os bydd amgylchiadau lle y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu y bydd risg of fynd yn uwch nag unrhyw un o'r canlynol—

(a) gwerth terfyn;

(b) y trothwy rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid neu sylffwr deuocsid; neu

(c) yn ddarostyngedig i baragraff (4), y trothwy rhybuddio ar gyfer osôn.

(3) Amcanion pob cynllun gweithredu yw—

(a) Lleinhau'r risg yr aed yn uwch na'r gwerth terfyn perthnasol neu drothwy rhybuddio; neu

(b) pan nad yw'n bosibl ei atal, cyfyngu ar ei hyd neu ei ddifrifoldeb.

(4) Mewn perthynas ag osôn, mae'r ymrwymiad a osodir gan baragraff (1)(a) dim ond yn gymwys, i'r graddau y rhoddir ystyriaeth i amodau daearyddol, meteorolegol ac economaidd, os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu bod posibilrwydd sylweddol i'r amodau a nodwyd ym mharagraff (3) gael eu cyflawni.

(5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, pan fo'n ystyried bod y risgiau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (2) yn codi o fewn unrhyw barth, weithredu'r mesurau a nodwyd yn y cynlluniau gweithredu perthnasol o fewn y parth dan sylw i'r graddau y mae'n eu barnu yn angenrheidiol o fewn amgylchiadau'r achos pendodol.

(6) Mae Atodlen 3 yn effeithiol wrth ragnodi—

(a) trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid, yn Rhan 1 o'r Atodlen honno; a

(b) y trothwy rhybuddio a'r trothwy wybodaeth ar gyfer osôn, yn Rhan 2 o'r Atodlen honno.

## PENNOD 4

## Asesu

### Dyletswydd i asesu ansawdd aer

**12.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol asesu crynodiad pob llygrydd ym mhob parth yn unol â rheoliadau 13 i 16.

### Dulliau asesu

**13.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol asesu crynodiadau llygryddion yn unol â'r dulliau sy'n ofynnol neu, yn achos llygryddion Grŵp A a llygryddion Grŵp B, y dulliau sydd wedi eu caniatáu gan y rheoliad hwn.

(2) Mewn perthynas â llygryddion Grŵp A a llygryddion Grŵp B mewn achosion lle—

(a) mae'r asesiad yn ymwneud â llygrydd Grŵp A o fewn crynhoad; neu

(b) mae crynodiadau llygrydd uwchlaw'r trothwy asesu uchaf,

mae'n rhaid asesu trwy fesuriadau sefydlog.

(3) Mewn achosion lle nad yw paragraff (2) yn gymwys ac, yn achos nitrogen deuocsid, yn ddarostyngedig i reoliad 15(7), caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio'r dulliau asesu canlynol mewn perthynas â llygryddion Grŵp A a llygryddion Grwp B—

(a) cyfuniad o—

(i) mesuriadau sefydlog, a

(ii) dulliau modelu,

ar yr amod bod crynodiadau o'r llygrydd perthnasol, dros gyfnod cynrychioladol, wedi bod yn is na'r trothwy asesu uchaf; neu

(b) defnyddio dulliau modelu neu amcangyfrif gwrthrychol yn unig, ar yr amod—

(i) nad yw paragraff (4) yn gymwys, a

(ii) bod crynodiadau o'r llygrydd perthnasol, dros gyfnod cynrychioladol, wedi bod yn is na'r trothwy asesu isaf.

(4) Ni chaiff y Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio'r dulliau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (3)(b) i asesu nitrogen deuocsid na sylffwr deuocsid o fewn crynhoad.

(5) At ddibenion paragraffau (2) a (3)—

(a) mae'r trothwyon asesu uchaf ac isaf wedi eu pennu ar gyfer llygryddion Grŵp A yn Rhan 1 o Atodlen 4 ac ar gyfer llygryddion Grŵp B yn Rhan 2 o'r Atodlen honno; a

(b) mae'r cyfnod cynrychioladol i gael ei ddehongli yn unol â Rhan 3 o'r Atodlen honno.

(6) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu'r dull y caiff llygryddion Grŵp A a llygryddion Grŵp B eu hasesu ym mhob parth—

(a) os bydd newidiadau sylweddol mewn gweithgareddau sy'n effeithio ar grynodiadau llygrydd yn y parth hwnnw; a

(b) mewn unrhyw achos, o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

(7) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol asesu crynodiadau osôn trwy fesuriadau parhaus sefydlog os yw'r crynodiadau, yn y parth perthnasol, wedi bod yn uwch na'r amcan hirdymor yn ystod unrhyw un o fesuriadau y pum mlynedd blaenorol.

(8) Mewn achosion lle bo llai na phum mlynedd o ddata ar gael, caiff y Cynulliad Cenedlaethol asesu crynodiadau osôn trwy gyfuno'r canlynol —

(a) ymgyrchoedd mesuriadau a gynhelir am gyfnodau byr ar adegau ac mewn lleoliadau y mae'n barnu sy'n debygol o fod yn nodweddiadol o'r lefelau llygredd uchaf; a

(b) canlyniadau rhestri o ollyngiadau a modelu.

### Mesuriadau sefydlog

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn achosion lle, mewn perthynas ag un neu fwy o lygryddion, caiff parth ei asesu yn unol â'r dulliau y cyfeirir atynt yn rheoliad 13(2), (3)(a) neu (7).

(2) Pan gaiff parth ei asesu yn unol â rheoliad 13(2) neu (3)(a), rhaid i fesuriadau o'r llygrydd perthnasol, sydd yn ddarostyngedig yn achos nitrogen deuocsid i'r gofynion a osodir gan reoliad 15(7) mewn perthynas â'r asesiadau sy'n ofynnol gan y rheoliad hwnnw, gael eu cymryd mewn safleoedd sefydlog naill ai'n barhaus neu drwy samplu ar hap ac mae'n rhaid i nifer y mesuriadau fod yn ddigon mawr i alluogi pennu crynodiadau o'r llygrydd yn briodol.

(3) Pan fo parth yn cael ei asesu yn unol â rheoliad 13(2), caiff y Cynulliad Cenedlaethol ychwanegu gwybodaeth o bwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog gyda gwybodaeth o ddulliau modelu lle y mae'n barnu y bydd hyn yn darparu lefel ddigonol o wybodaeth ynglyn ag ansawdd aer amgylchynol.

(4) Pan fo parth yn cael ei asesu yn unol â rheoliad 13(7), caiff y Cynulliad Cenedlaethol ychwanegu gwybodaeth o bwyntiau samplu gyda gwybodaeth o fesuriadau dangosol neu fodelu ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau a nodwyd yn rheoliad 15(6).

**Pwyntiau samplu**

**15.**—(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn asesu crynodiadau llygrydd o fewn parth yn unol â'r dulliau y cyfeirir atynt yn rheoliad 13(2), (3)(a) neu (7) mae'n rhaid iddo sicrhau, mewn perthynas â phob llygrydd —

(a) bod isafswm nifer y pwyntiau samplu yn cael eu sefydlu ym mhob parth, yn unol â pharagraffau (2) i (6); a

(b) bod pob pwynt samplu wedi ei leoli yn unol â Rhannau perthnasol Atodlen 5.

(2) Mewn achosion lle caiff parth ei asesu yn unol â—

(a) rheoliad 13(2), ac nid yw paragraff (3)(a) o'r rheoliad hwn yn gymwys; neu

(b) rheoliad 13(7), ac nid yw paragraff (4) o'r rheoliad hwn yn gymwys,

pennir isafswm nifer y pwyntiau samplu yn y Rhannau perthnasol o Atodlen 6.

(3) Pan gaiff parth ei asesu yn unol â—

(a) rheoliad 13(2) ac, yn y parth hwnnw, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ategu mesuriadau sefydlog gyda dulliau modelu yn unol â rheoliad 14(3); neu

(b) rheoliad 13(3)(a),

rhaid i isafswm nifer y pwyntiau samplu sy'n ofynnol ar gyfer pob llygrydd fod yn nifer y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu ei fod yn ddigonol, a'i ystyried ynghyd â dosbarthiad y technegau eraill o ran eu lleoliad, ar gyfer darganfod crynodiadau y llygrydd perthnasol.

(4) Pan fo parth yn cael ei asesu yn unol â rheoliad 13(7), caiff y Cynulliad Cenedlaethol leihau nifer y pwyntiau samplu sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(b) ar yr amod bod yr amodau a osodir ym mharagraffau (5) neu (6) yn cael eu bodloni.

(5) Mewn achos parthau lle—

(a) cynhaliwyd mesuriadau am bum mlynedd; a

(b) yn ystod pob un o'r blynyddoedd hynny, mae crynodiadau osôn wedi bod yn is na'r amcanion hirdymor,

caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu ar nifer y pwyntiau samplu yn unol â Rhan 5 o Atodlen 6.

(6) Yn achos parthau lle y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ychwanegu at yr wybodaeth a geir o bwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog trwy ddefnyddio gwybodaeth o fesuriadau dangosol neu fodelu yn unol â rheoliad 14(4), caiff leihau nifer y pwyntiau samplu ar yr amod—

(a) bod y dulliau modelu a fabwysiadwyd yn darparu lefel ddigonol o wybodaeth ar gyfer asesu ansawdd aer mewn perthynas â'r—

(i) gwerthoedd targed,

(ii) trothwy gwybodaeth, a

(iii) trothwy rhybuddio;

(b) bod nifer y pwyntiau samplu sydd i'w gosod a dosbarthiad y technegau eraill o ran eu lleoliad yn ddigon i ddarganfod y crynodiad osôn ac er mwyn crynhoi canlyniadau'r asesu fel a nodir yn Rhan 3 o Atodlen 7;

(c) bod cyfanswm nifer y pwyntiau samplu ym mhob parth yn—

(i) un pwynt samplu o leiaf fesul dwy filiwn o drigolion, neu

(ii) un pwynt samplu fesul 50,000 $km^2$,

p'un bynnag sy'n cynhyrchu'r nifer mwyaf o bwyntiau samplu;

(ch) bod pob parth yn cynnwys o leiaf un pwynt samplu; a

(d) bod crynodiadau o nitrogen deuocsid yn cael eu hasesu ym mhob un o'r pwyntiau samplu sy'n weddill ac eithrio mewn gorsafoedd cefndir gwledig, yn unol â pharagraff (7).

(7) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau—

(a) bod crynodiadau nitrogen deuocsid yn cael eu hasesu—

(i) o leiaf 50 y cant o'r pwyntiau samplu a sefydlwyd ar gyfer osôn yn unol â Rhan 4 o Atodlen 6, neu

(ii) lle bo paragraff (6) yn gymwys, yn unol ag is-baragraff (d) o'r paragraff hwnnw;

a

(b) bod y mesuriad o nitrogen deuocsid sy'n cael ei gymryd yn y pwyntiau samplu hyn yn barhaus, ac eithrio mewn gorsafoedd cefndir gwledig lle gellir defnyddio dulliau mesur eraill.

**Gofynion asesu eraill**

**16.**—(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgymryd ag asesiadau mewn perthynas â —

(a) llygryddion Grŵp A neu lygryddion Grŵp B, trwy ddulliau ac eithrio mesuriadau sefydlog a ganiateir gan reoliad 13(3) neu 14(3); neu

(b) osôn, trwy ddulliau ac eithrio mesuriadau parhaus sefydlog a ganiateir gan reoliadau 13(7) a 14(4),

rhaid iddo gydymffurfio â gofynion y Rhan berthnasol o Atodlen 7 wrth ddefnyddio'r dulliau eraill hynny.

(2) Wrth wneud unrhyw asesiad o dan y Pennod hwn, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw i'r amcanion ansawdd data perthnasol sydd wedi eu nodi yn Atodlen 8.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal asesiadau yn unol â —

(a) dulliau cyfeirio perthnasol sy'n ofynnol gan Atodlen 9; neu

(b) unrhyw ddulliau cyfeirio eraill, lle y mae'n barnu bod y dull dan sylw yn rhoi canlyniadau cywerth â'r dull perthnasol sy'n ofynnol gan Atodlen 9.

(4) O ran bensen, carbon monocsid, nitrogen deuocsid, ocsidau nitrogen, osôn a sylffwr deuocsid, rhaid i fesuriadau cyfaint gael eu safon ar dymheredd o 293K a phwysedd o 101.3 kPa.